

Pwerau pellach

Esbonio canlyniad y refferendwm

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

T 0845 010 5500
www.pleidleisiwch2011.org
www.cynulliadcymru.org
gwybodaeth@cymru.gov.uk
archebu@cymru.gov.uk

Cymerwch ran ar Facebook, YouTube, Twitter a Flickr.

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2011
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

le i bwerau pellach

Yn dilyn y refferendwm a gynhaliwyd ar 03 Mawrth 2011 ar bwerau deddfu Cynulliad Cenedlaethol Cymru, pleidleisiodd pobl Cymru o blaid rhoi pwerau pellach i'r Cynulliad Cenedlaethol lunio deddfau yng Nghymru.

Cyn y refferendwm, roedd gan y Cynulliad Cenedlaethol bwerau i ddeddfu dros Gymru ar rai pynciau mewn 20 maes lle mae ganddo bwerau sydd wedi'u datganoli. Er mwyn llunio deddfau ar ragor o bynciau o fewn y meysydd datganoledig, roedd angen cytundeb Senedd y DU arno i wneud hynny fesul achos. Am restr o'r meysydd datganoledig, gweler tudalen 03.

Beth mae'r canlyniad yn ei olygu

Erbyn hyn, yn dilyn pleidlais 'ie' yn y refferendwm, bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gallu llunio deddfau ar yr holl bynciau yn yr 20 maes datganoledig, a hynny heb orfod gofyn am gytundeb Senedd y DU yn gyntaf. Nid yw canlyniad y refferendwm yn golygu y gall y Cynulliad lunio deddfau mewn rhagor o feysydd nag o'r blaen.

Ni fydd angen mwyach am drafodaethau rhwng Llywodraethau'r DU a Chymru ynghylch pa bwerau y dylid neu na ddylid eu datganoli i'r Cynulliad. Mae'r pleidlais 'ie' hefyd yn cael gwared ar y gwaith craffu yr oedd Aelodau Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi yn ei wneud ar y cynigion i roi pwerau deddfu i'r Cynulliad. Yn hytrach, cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru ac Aelodau'r Cynulliad yw penderfynu sut i ddefnyddio pwerau deddfu'r Cynulliad.


Bellach, ni fydd cyfreithiau'r Cynulliad yn cael eu galw'n 'Mesurau Cynulliad'. Erbyn hyn, bydd cyfreithiau arfaethedig yn cael eu galw'n 'Biliau', a bydd cyfreithiau sydd wedi'u pasio yn cael eu galw'n 'Deddfau'. Bydd y Mesurau a luniwyd ers 2007 yn dal i gael eu galw'n 'Mesurau Cynulliad' a bydd eu statws cyfreithiol yn parhau. Fodd bynnag, ni fydd yn bosibl llunio unrhyw Fesurau pellach, a bydd y cyfreithiau a lunnir gan y Cynulliad yn cael eu galw'n 'Deddfau'.

Ni fydd Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol yn angenrheidiol mwyach, gan mai ceisiadau i Senedd y DU i ganiatáu i'r Cynulliad ddeddfu ar bynciau newydd o fewn yr 20 maes datganoledig oedd y rheini.

Y meysydd sydd wedi'u datganoli

Gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddeddfu dros Gymru yn y meysydd canlynol sy'n effeithio ar eich bywyd:

- 01 Amaethyddiaeth, pysgodfeydd, coedwigaeth a datblygu gwledig
- 02 Henebion ac adeiladau hanesyddol
- 03 Diwylliant
- 04 Datblygu economaidd
- 05 Addysg a hyfforddiant
- 06 Yr amgylchedd
- 07 Gwasanaethau tân ac achub a hybu diogelwch rhag tân
- 08 Bwyd
- 09 Iechyd a gwasanaethau iechyd
- 10 Priffyrdd a thrafnidiaeth
- 11 Tai
- 12 Llywodraeth leol
- 13 Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- 14 Gweinyddiaeth gyhoeddus
- 15 Lles cymdeithasol
- 16 Chwaraeon a hamdden
- 17 Twristiaeth
- 18 Cynllunio gwlad a thref
- 19 Dŵr ac amddiffyn rhag llifogydd
- 20 Y Gymraeg



Beth nesaf? Etholiad y Cynulliad

A chithau bellach wedi cael dweud eich dweud yn y refferendwm, gallwch nawr ddewis pwy fydd yn defnyddio'r pwerau i ddeddfu yng Nghymru pan gynhelir etholiad y Cynulliad Cenedlaethol ar 05 Mai 2011.

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnwys 60 o Aelodau Cynulliad. Mae 40 ohonynt yn Aelodau etholaethol ac yn cynrychioli'r un etholaethau ag Aelodau Seneddol San Steffan, ac mae'r 20 arall yn Aelodau rhanbarthol ac yn cynrychioli un o'r pum rhanbarth sydd yng Nghymru (pedwar Aelod i bob rhanbarth).

Felly, caiff pawb yng Nghymru ei gynrychioli gan un Aelod etholaethol a phedwar Aelod rhanbarthol.

Mae hyn yn golygu y bydd gennych ddwy bleidlais yn etholiad 2011 y Cynulliad: un ar gyfer eich Aelod etholaethol ac un ar gyfer eich Aelodau rhanbarthol. Etholir Aelod ar gyfer pob un o'r 40 etholaeth yng Nghymru drwy system 'y cyntaf i'r felin', lle bydd yr ymgeisydd â'r nifer mwyaf o bleidleisiau yn ennill y sedd. Caiff yr Aelodau rhanbarthol eu hethol drwy'r 'System Aelodau Ychwanegol', lle bydd yr etholwyr yn bwrw pleidlais dros blaid wleidyddol. Mae'r system hon yn anelu at sicrhau bod cyfanswm nifer y seddi sydd gan bob plaid yn adlewyrchu cyfran y bleidlais a dderbyniwyd gan bob plaid yn rhanbarthol.

Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am eich etholaeth a'ch rhanbarth drwy fynd i'n gwefan, www.cynulliadcymru.org, neu drwy alw ein llinell wybodaeth ar 0845 010 5500. Gallwch hefyd weld pwy yw ymgeiswyr yr etholiad eleni drwy edrych ar wefannau'r pleidiau unigol neu'r awdurdodau lleol.

Mae'n hynod bwysig eich bod yn defnyddio eich pleidlais yn etholiad 2011. Drwy bleidleisio, chi sy'n penderfynu pwy fydd yn eich cynrychioli chi yn y Cynulliad. Cadwch lygad ar ein gwefan, www.vote2011.org, am newyddion am ymgyrch Pleidleisiwch 2011 ac i gael dyddiadau pwysig i'ch dyddiadur.



